Cofnodion **BWRDD YR YMDDIRIEDOLWYR** a gynhaliwyd ar 18 Mehefin 2015 yng Ngwesty'r Seiont Manor, Llanberis

Nodiadau	**Gweithredu**
PRESENNOL: Elisabeth Elias, Llywydd (yn y Gadair); Haydn Edwards, Is-lywydd; Laurie Pavelin, Trysorydd; Carole-Anne Davies; Glenda Jones; Hywel Ceri Jones; Kay Andrews; Keshav Singhal; Miriam Griffiths; Robert Pickard; Tony Atkins; Victoria Provis; David Anderson, Cyfarwyddwr Cyffredinol; Mark Richards, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol/Cyfarwyddwr Gweithredu; Neil Wicks, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol; Janice Lane, Cyfarwyddwr Addysg, Arddangosfeydd a Chyfryngau Digidol; ac Elaine Cabuts, Ysgrifennydd yr Amgueddfa. **HEFYD YN BRESENNOL:** Linda Tomos (Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd) a Dafydd Roberts (Ceidwad, Amgueddfa Lechi Cymru) fel sylwedyddion.	
1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU 1.1 Croesawyd yr Aelodau, Linda Tomos a Dafydd Roberts i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Carol Bell; Gareth Wyn Jones; Christina Macaulay; Judith Ingram, Pennaeth Polisi a Chynllunio, a Lesley-Anne Kerr (Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd).	
Yn Sesiwn Gaeedig y cyfarfod, bu'r Bwrdd yn trafod Adolygiad y Cynllun Pensiwn, penodi Ymddiriedolwyr, y Rhaglen Newid, cynllunio ariannol, Adolygiad Llywodraeth Cymru o Amgueddfeydd Awdurdodau Lleol yng Nghymru, sganio'r gorwel, a chawsant eu briffio arnynt. ***Wedi hynny, agorwyd y cyfarfod i'r cyhoedd ond nid oedd yr un aelod o'r cyhoedd yn bresennol.***	
2 COFNODION 5.1 Penderfynwyd: Cymeradwyo Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2015.	
3 MATERION YN CODI o gofnodion 12 Mawrth 2015 3.1 Nid oedd materion yn codi na fyddai'n cael eu trafod fel rhan o'r agenda.	
4 SIARTER FRENHINOL A STATUDAU – YMGYSYLLTU AC YMGYNGHORI Â'R CYHOEDD: CYNLLUN A PHOLISI 4.1 Derbyniwyd: Adroddiad gan Ysgrifennydd yr Amgueddfa. 4.2 Adroddwyd: Bod y Cynllun wedi'i ddrafftio yn 2007 ar ôl i'r Siarter Frenhinol a'r Statudau gael eu diwygio yn 2006. Roedd yn nodi	

Nodiadau	Gweithredu
rhwymedigaethau cyfreithiol yr Amgueddfa i ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid. Roedd y Polisi, a ddrafftiwyd yn 2007 hefyd, yn nodi egwyddorion arhosol yr Amgueddfa a'i dull o ymgysylltu wrth weithredu'r Cynllun. Cafodd y Cynllun a'r Polisi eu diwygio'n sylweddol i adlewyrchu arferion amgueddfaol cyfoes, Gweledigaeth Amgueddfa Cymru a'r agwedd at gyfranogi, cydgynhyrchu, cydguradu a chyd-greu. Erbyn hyn, roedd y Polisi'n fframwaith gyffredinol ar gyfer y polisïau manylach oedd yn cael eu cynhyrchu, fel y Strategaeth Addysg a Chyfranogiad, a gymeradwywyd yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth 2015, a'r Strategaeth Ymgysylltu Cymunedol oedd yn cael ei chyflwyno i'r cyfarfod hwn. Roedd y Strategaeth Adnoddau Dynol, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Adolygu Perfformiad ym mis Mai 2015, hefyd yn adlewyrchu'r ffaith fod ymgysylltu ac ymgynghori yn rhan hanfodol o brosesau penderfynu. 4.3 Nododd yr Aelodau y byddai'r Amgueddfa'n dal i ddefnyddio set o ddulliau priodol o ymgysylltu wedi'u seilio ar anghenion cynulleidfaoedd. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio cyfarfodydd cyhoeddus. Nododd yr Aelodau pa mor bell yr oedd yr Amgueddfa wedi dod er 2006 o ran datblygu dull gweithredu cynhwysol a chyfranogol a oedd yn arwain y gwaith yn y sector. 4.4 <u>Penderfynwyd:</u> Yn unol â hynny, a chymeradwywyd y Cynllun a'r Polisi, gyda'r newidiadau a ganlyn: cynnwys 'y Deyrnas Unedig' ym mrawddeg olaf pwynt 3 o'r Cynllun; cyfeiriad cryfach at rôl llywodraethiant yn nheitlau'r Cynllun a'r Polisi; bod "yr Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd (MALD)" yn cael ei ddefnyddio yn lle CyMAL o hyn ymlaen.	Ysgrifennydd yr Amgueddfa / Amgueddfa Cymru
5 STRATEGAETH YMGYSYLLTU CYMUNEDOL 5.1 <u>Derbyniwyd:</u> Adroddiad gan y Pennaeth Addysg, Cyfranogiad a Dehongli. 5.2 <u>Adroddwyd:</u> Adroddodd y Cyfarwyddwr Addysg, Arddangosfeydd a Chyfryngau Digidol fod y strategaeth hon, fel y Strategaeth Addysg a Chyfranogiad, yn un ar gyfer yr Amgueddfa gyfan. Cafodd y strategaeth ei datblygu a'i hysgrifennu ar y cyd gan staff a phartneriaid cymunedol. Nododd yr Aelodau gyd-destun y strategaeth a'r gwaith ymchwil y tu ôl iddi. 5.3 Llongyfarchodd yr Aelodau y Pennaeth Addysg, Cyfranogiad a Dehongli, y Cyfarwyddwr Addysg, Arddangosfeydd a Chyfryngau Digidol a'r tîm ehangach ar y strategaeth ac am ddatblygu dull gweithredu sy'n cynnwys yr Amgueddfa gyfan. Roedd yn bwysig sicrhau bod ymgysylltu mewnol ac allanol yn ganolog i waith yr Amgueddfa. 5.4 Nodwyd bod y strategaeth yn mynd i'r afael â chynigion allweddol y Dirprwy Weinidog. Roedd yr Amgueddfa'n ystyried ffyrdd y gallai ddechrau casglu effeithiau cymdeithasol yn well, yn cynnwys cyflwyno	

Nodiadau	Gweithredu
metrigau a Dangosyddion Perfformiad Allweddol addas. 5.5 Nododd yr Aelodau sut yr oedd y strategaeth yn galluogi staff i'w defnyddio fel dogfen fyw y gellid cyfeirio ati a'i diweddaru a sut yr oedd y gwaith o adrodd ar ganlyniadau ar y cyd ar draws nifer o strategaethau'n cael ei ddatblygu. Roeddent yn dal i gydweithio â nifer o bartneriaid yn cynnwys y sector Addysg Uwch yng Nghymru. Penderfynwyd: Yn unol â hynny, a chymeradwywyd y Cynllun, gyda'r newidiadau a ganlyn: bod ail frawddeg y crynodeb o'r cyflwyniad yn cynnwys '…being rooted in local needs, *aspirations and resources*'; bod adran 3 yn cael y teitl 'Cyd-destun Polisi Gwleidyddol'. Bod yr Amgueddfa, a'i phartneriaid cymunedol, yn datblygu fersiwn Hawdd ei Darllen o'r polisi. Bod Linda Tomos yn trafod â'r Amgueddfa i ddatblygu ymwybyddiaeth ehangach o'r materion gyda'r Dirprwy Weinidog, a bod yr Amgueddfa'n cefnogi MALD i ddatblygu Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol.	Pennaeth Addysg a Chyfranogiad/ Cyfarwyddwr Addysg, Arddangosfeydd a Chyfryngau Digidol
6 LLYWODRAETHIANT – MATERION FFURFIOL BLYNYDDOL 6.1 **Cylch Gorchwyl** 6.1.1 Derbyniwyd: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol. 6.1.2 Adroddwyd: Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol y Cylch Gorchwyl ar gyfer y Pwyllgorau Sefydlog (y Pwyllgor Penodiadau a Chyflogau, y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Adolygu Perfformiad) a'r Grŵp Cynghori Ymchwil. 6.1.3 Nododd yr Aelodau y byddai'r Llawlyfr Llywodraethiant oedd wrthi'n cael ei ddrafftio yn mynd i'r afael â Chylchoedd Gorchwyl y grwpiau a'r pwyllgorau eraill. 6.1.4 Penderfynwyd: Yn unol â hynny, a bod Cylchoedd Gorchwyl y Pwyllgorau Sefydlog yn cael eu cymeradwyo, a'r un ar gyfer y Pwyllgor Cynghori Ymchwil yn cael ei gymeradwyo gyda'r cywiriadau a nodwyd. 6.2 **Aelodaeth** 6.2.1 Derbyniwyd: Rhestr gan Ysgrifennydd yr Amgueddfa. 6.2.2 Adroddwyd: Cynigiodd y Llywydd bod Chris Jackson, Cadeirydd presennol Bwrdd Mentrau AOCC Cyf, yn cael ei gyfethol i'r Pwyllgor Adolygu Perfformiad. 6.2.3 Penderfynwyd: Yn unol â hynny a bod Chris Jackson yn cael ei benodi'n aelod cyfetholedig y Pwyllgor Adolygu Perfformiad, a Laurie Pavelin yn cael ei chofnodi fel rhywun i fynychu Bwrdd Mentrau AOCC. Bod Tony Atkins yn cael ei benodi'n aelod o'r Pwyllgor Cynghori Ymchwil a bod aelodaeth Amgueddfa Genedlaethol y Glannau Abertawe Cyf. yn cael ei	Ysgrifennydd yr Amgueddfa Ysgrifennydd yr Amgueddfa

Nodiadau	Gweithredu
diweddaru i adlewyrchu'r newidiadau i aelodau Dinas a Sir Abertawe. 6.3 **Gwerthuso gan yr Ymddiriedolwyr** 6.3.1 Derbyniwyd: Adroddiad gan y Llywydd. 6.3.2 Adroddwyd: Bod y Llywydd yn ddiolchgar i'r Ymddiriedolwyr am eu cyfraniadau at y broses werthuso. Nodwyd y blaenoriaethau a'r argymhellion. 6.3.3 Penderfynwyd: Yn unol â hynny a nodwyd yr adroddiad. 6.4 **Adroddiad Cadeirydd CCB Caerllion** 6.4.1 Derbyniwyd: Adroddiad gan un o'r Ymddiriedolwyr, Miriam Griffiths. 6.4.2 Adroddwyd: Bod y CCB wedi bod yn gyfle buddiol iawn i'r safle a'r gymuned leol ystyried yr hyn yr oeddent wedi'i gyflawni bob blwyddyn. Diolchodd Miriam Griffiths i'r Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol/ Cyfarwyddwr Gweithredu ac i Reolwr yr Amgueddfa a'i dîm. 6.4.3 Diolchodd y Llywydd i Miriam Griffiths am ei chyfraniad gwerthfawr i Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru. 6.4.4 Penderfynwyd: Yn unol â hynny a nodwyd yr adroddiad. 6.5 **Adroddiad Blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio** 6.5.1 Derbyniwyd: Adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio. 6.5.2 Adroddwyd: Bod y Pwyllgor wedi cymeradwyo'r adroddiad a diolchwyd i'r Cadeirydd annibynnol am ei stiwardiaeth. 6.5.3 Penderfynwyd: Yn unol â hynny a nodwyd yr adroddiad. 6.6 **Adroddiad Blynyddol Cadeirydd y Pwyllgor Adolygu Perfformiad** 6.6.1 Derbyniwyd: Adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Adolygu Perfformiad. 6.6.2 Adroddwyd: Adroddodd y Trysorydd (Cadeirydd y Pwyllgor) bod y Pwyllgor yn ystyried cynnwys yr agendâu, gyda'r bwriad o sicrhau bod y Pwyllgor yn craffu'n ddigonol ar y meysydd y dymunai'r Bwrdd iddo eu hadolygu. 6.6.3 Nododd yr Aelodau mai'r brif risg ar y Gofrestr Risgiau Strategol oedd y gostyngiad mewn cyllid oddi wrth Lywodraeth Cymru. Cadarnhaodd Linda Tomos y byddai gostyngiad. 6.6.4 Penderfynwyd: Yn unol â hynny a nodwyd yr adroddiad. 6.7 **Trefn Newydd y Cynllun Pensiwn**	

Nodiadau	**Gweithredu**
6.7.1 Adroddwyd: Adroddodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol bod tair adran i'r Cynllun, ar gyfer aelodau presennol a rhai newydd. Roedd Ymddiriedolwyr y Cynllun Pensiwn ac is-grŵp o'r Ymddiriedolwyr a'r Bwrdd Gweithredol, wedi ystyried y cynigion drafft hefyd. 6.7.2 Penderfynwyd: Yn unol â hynny ac y byddai Linda Tomos yn sicrhau bod yr Amgueddfa'n cael gwybodaeth am yr amserlenni ar gyfer cwblhau'r gwaith. 6.8 **Awdurdodau Dirprwyedig** 6.8.1 Derbyniwyd: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol. 6.8.2 Adroddwyd: Bod y cyflwyniad blynyddol ar yr Awdurdodau Dirprwyedig diwygiedig yn adlewyrchu'r sefyllfa staffio gyfredol, a'r trothwyon caffael arfaethedig. 6.8.3 Penderfynwyd: Yn unol â hynny a chymeradwywyd y diwygiadau.	Linda Tomos
7 ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR CYFFREDINOL, BRIFFIAD CHWARTEROL, CHWARTER 4, MATERION CYFREDOL 7.1 Derbyniwyd: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol. 7.2 Adroddwyd: Bod nifer yr ymweliadau â'r safleoedd wedi cyrraedd bron 1.7m ar gyfer y flwyddyn 2014/15. Cymharwyd hyn ag amgueddfeydd cenedlaethol eraill. Roedd nifer yr ymweliadau â'r wefan yn is na'r targed am fod y wefan wedi'i hailwampio'n sylweddol. Byddai set wahanol o fetrigau'n cael ei defnyddio yn y dyfodol ar gyfer y ffordd o adrodd ar waith ymchwil. Nododd yr Aelodau bod y Dirprwy Weinidog yn awyddus i weld cynnydd mewn gwirfoddoli, a bod yr Amgueddfa'n cymharu'n ffafriol ag amgueddfeydd eraill yn hyn o beth. 7.3 Cafodd yr Aelodau y newyddion diweddaraf am arddangosfeydd a lansiwyd yn ddiweddar, yr ymgynghoriad ar Safonau'r Iaith Gymraeg, sylw a gafwyd ar y cyfryngau yn ddiweddar, a chyhoeddiad y Prif Weinidog am fynediad am ddim i Big Pit. Soniwyd am yr Arolwg Staff yn y cyfryngau ac roedd rheolwyr yr Amgueddfa'n cymryd canlyniadau'r arolwg yn ddifrifol iawn. Roedd cynllun gweithredu manwl wedi'i ddrafftio. Roedd trafodaethau ar gynllunio ariannol yn cael eu cynnal gyda staff yr Amgueddfa er mwyn rheoli cyllidebau i'r dyfodol. 7.4 O ran Bil Cenedlaethau'r Dyfodol, nododd Linda Tomos bod y gwaith yn her i bawb a'i bod yn rhaid pennu'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol perthnasol. Diolchodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol ar ran yr Amgueddfa am y cymorth ariannol a gafwyd gan MALD ar gyfer yr arddangosfa Trysorau ac arddangosfeydd eraill.	Ysgrifennydd yr Amgueddfa

Nodiadau	Gweithredu
7.5 Penderfynwyd: Yn unol â hynny ac y byddai cyflwyniad ar gael i'r Ymddiriedolwyr.	
8 ADRODDIAD BLYNYDDOL AR YR ARDDANGOSFEYDD 8.1 Derbyniwyd: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Arddangosfeydd a Chyfryngau Digidol. 8.2 Adroddwyd: Roedd yr adroddiad yn rhoi trosolwg o raglen arddangosfeydd 2014/15 ac yn amlinellau gweithgareddau a datblygiad ar gyfer y dyfodol. Nododd yr Aelodau weithgarwch y rhaglen arddangosfeydd dros dro, y gweithgareddau i gofio'r Rhyfel Byd Cyntaf, a'r cyfleoedd masnachol cysylltiedig sydd wedi'u hystyried. Byddai gwaith mewn partneriaeth yn dal i gyfrannu at raglen yr Amgueddfa. 8.3 Cofnododd y Llywydd ddiolch yr Amgueddfa i Ymddiriedolaeth Elusennol Tregolwyn am eu cefnogaeth gyson. Cafodd yr arddangosfa *Pastures Green and Dark Satanic Mills:The British Passion for Landscape,* sydd ar daith yn America tan fis Mai 2016, dderbyniad da ac roedd yn help i dynnu sylw at yr Amgueddfa. Roedd Croeso Cymru wedi cofnodi eu bod yn gwerthfawrogi gwaith yr arddangosfa yn codi proffil Cymru dramor. 8.4 Penderfynwyd: Yn unol â hynny a bod yr Amgueddfa'n ystyried ffyrdd addas o gydnabod Ymddiriedolaeth Elusennol Colwinston a diolch iddynt.	Y Llywydd/ y Cyfarwyddwr Cyffredinol
9 DIWEDDARIAD AR BROJECT 'CREU HANES' SAIN FFAGAN AMGUEDDFA WERIN CYMRU 9.1 Derbyniwyd: Adroddiad gan y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol/ Cyfarwyddwr Gweithredu. 9.2 Adroddwyd: Bod y gwaith adeiladu wedi'i ddal yn ôl am fod lefelau'r creigiau yn rhwystro'r gwaith. Yn ogystal, bu'n rhaid symud deunydd wedi'i gloddio o'r safle. Roedd y gwaith ar yr arddangosfeydd yn parhau ac roedd gwariant y project yn dal yn cyfateb i'r nod. Roedd yr Aelodau'n falch o nodi bod Sefydliad Wolfson wedi cadarnhau y diwrnod hwnnw ei fod yn rhoi grant o £100,000 i gefnogi'r project. Roedd y tîm Datblygu yn dal i sicrhau rhagor o gyllid. 9.3 Penderfynwyd: Yn unol â hynny.	
10 ADRODDIAD BLYNYDDOL AR BARTNERIAETHAU AMGUEDDFEYDD 10.1 Derbyniwyd: Adroddiad gan y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol/ Cyfarwyddwr Gweithredu. 10.2 Adroddwyd: Bod yr adroddiad yn amlinellu partneriaethau'r Amguedda ag amgueddfeydd eraill yng Nghymru. Roedd y Bwrdd wedi trafod	

Nodiadau	Gweithredu
partneriaethau yn ehangach ac fel rhan o'i ymweliad ag Amgueddfa Lechi Cymru y diwrnod cynt. 10.3 Penderfynwyd: Yn unol â hynny.	
11 ADRODDIAD BLYNYDDOL AR IECHYD A DIOGELWCH 11.1 Derbyniwyd: Adroddiad gan y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol/ Cyfarwyddwr Gweithredu. 11.2 Adroddwyd: Bod y materion yn cael eu monitro gan Grŵp Polisi Iechyd a Diogelwch yr Amgueddfa. Roedd yr adroddiad blynyddol yn cyflwyno'r diweddariadau deddfwriaethol ac yn nodi sut yr oedd yr Amgueddfa wedi addasu ei weithdrefnau yn ôl yr angen. 11.3 Penderfynwyd: Yn unol â hynny.	
12 MATERION CASGLIADAU 12.1 **Adroddiad Casgliadau ac Ymchwil** 12.1.1 Derbyniwyd: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol. 12.1.2 Adroddwyd: Bod dau grŵp allanol ym maes ymchwil a gadeiriwyd gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol wedi cyfarfod ddwywaith yr un ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd ym mis Mawrth. Roedd Bwrdd ymchwil mewnol yr Amgueddfa ei hunan wedi cyfarfod hefyd. Roedd y Strategaeth Datblygu Casgliadau yn cael ei datblygu trwy benodi hwylusydd, wedi'i ariannu gan Sefydliad Paul Hamlyn. Yn ogystal, mae'r Sefydliad wedi gofyn i'r Amgueddfa gyflwyno'r gwaith Our Museum i'w Fwrdd. Mae'r gwaith yn symud ymlaen ar ddisgrifiad swydd y Pennaeth Ymchwil. 12.1.3 Bu'r Ymddiriedolwyr Miriam Griffiths a Carole-Anne Davies yn nigwyddiad Adolygiad Cymheiriaid Our Museum yn Llundain gyda staff yr Amgueddfa a phartneriaid cymunedol. Roedd y Sefydliad o'r farn fod Amgueddfa Cymru yn sefyll allan. 12.1.4 Penderfynwyd: Yn unol â hynny a bod yr Amgueddfa a MALD yn ystyried opsiynau ar gyfer cydweithio â Cadw ar gyfleoedd datblygu cymunedol yn ymwneud ag adeiladau sydd â chasgliadau ynddynt. 12.2 **Benthyciadau Rhyngwladol** 12.2.1 Derbyniwyd: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol. 12.2.2 Adroddwyd: Bod y Bwrdd wedi ystyried argymhellion y Grŵp Cynghori Celf.	Amgueddfa / MALD

Nodiadau	**Gweithredu**
12.2.3 Penderfynwyd: Yn unol â hynny a bod y Benthyciadau Rhyngwladol yn cael eu cymeradwyo.	
13 COFNODION DRAFFT GWAHANOL GYFARFODYDD 13.1 Derbyniwyd a Nodwyd: Cofnodion drafft: i. Grŵp Cynghori Celf 24 Ebrill 2015 (gosodwyd gerbron) ii. Mentrau AOCC Cyf 14 Mai 2015 iii. Pwyllgor Archwilio 19 Mai 2015 iv. Ymddiriedolwyr Pensiynau 20 Mai 2015 v. Pwyllgor Adolygu Perfformiad 21 Mai 2015 vi. Pwyllgor Cynghori Ymchwil 2 Mehefin (gosodwyd gerbron) vii. Grŵp Comisiynu Project Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru 3 Mehefin 2015 13.2 Adroddwyd: O ran Ymddiriedolwyr y Cynllun Pensiwn, adroddodd Robert Pickard sy'n un o Ymddiriedolwyr yr Amgueddfa ac yn Gadeirydd Ymddiriedolwyr y Cynllun Penswn, eu bod yn ceisio canfod y sefyllfa gyfreithiol bresennol ynghylch pa mor ystyrlon yw Gwarant y Goron. Roedd y Rheoleiddiwr Pensiynau wedi dweud ei fod yn fodlon ei bod yn yn ei lle. O ran y Pwyllgor Cynghori Ymchwil, roedd yr arbenigwyr allanol Nigel Llewellyn a Richard Sandell wedi'u penodi ac wedi bod yn y cyfarfod yn ddiweddar. Roedd y Cyfarwyddwr Cyffredinol wedi gwahodd enwebiadau gan staff ac Ymddiriedolwyr i lenwi tri lle arall. Roedd y Cyfarwyddwr Cyffredinol wedi cysylltu â dau o'r rhai a enwebwyd ac roeddent wedi derbyn yn anffurfiol. 13.3 Penderfynwyd: Yn unol â hynny, ac mae'n bosib y gwahoddir y Bwrdd i gymeradwyo penodiad aelodau allanol ychwanegol y Pwyllgor Cynghori Ymchwil trwy gyfarfod electronig o'r Bwrdd, fel y gellir eu penodi cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor.	Cyfarwyddwr Cyffredinol
14 UNRHYW FATER ARALL 14.1 Adroddodd y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol bod undeb PCS wedi cysylltu'n ffurfiol â'r Amgueddfa eto yn gofyn am gael cyfarfod â'r Ymddiriedolwyr. Mae Swyddogion y Bwrdd yn ystyried y cais.	
DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF: Penderfynwyd: Y bydd cyfarfod nesaf y Bwrdd Ymddiriedolwyr yn dechrau am 9am ar 24 Medi 2015 yn Oakdale, Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru.	